OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3272

## Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2003, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau, ond at ddibenion pob achos sy'n arwain at etholiad neu'n ymwneud ag etholiad sydd i'w gynnal ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei wneud.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Ceredigion" yw Sir Ceredigion.

ystyr "map ffiniau A" ("*boundary map A*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map A Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "map ffiniau B" ("*boundary map B*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map B Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'i diwygiwyd)(**1**);

ystyr "Sir Benfro" ("*Pembrokeshire*") yw Sir Benfro.

### Newidiadau i Ardaloedd Cymunedau

**3.** Bydd y rhannau o Geredigion a farciwyd A ar fap ffiniau A ac a farciwyd B ar fap ffiniau B yn cael eu gwahanu oddi wrth y sir honno a byddant yn ffurfio rhan o Sir Benfro. Gan hynny bydd cymuned Llandudoch yn ffurfio rhan o Sir Benfro.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*E. Hart*
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

6 Rhagfyr 2002

(**1**) O.S. 1976/246. fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S. 1978/247).